



Esboniad

Mae partneriaethau Lleuedd Bwyd Cynaliadwy yn newid drwy'r amser wrth i'r unigolion sy'n cymryd rhan fynd a dod ac wrth i rolau a chyfrifoldebau newid dros amser. Yn yr un ffordd, bydd strategaethau bwyd sydd i'w cyflawni gan y partneriaethau yn rhai sy'n gallu newid ac sy'n bodoli mewn cyd-destun sy'n newid drwy'r amser. Er bod y weledigaeth gyffredinol yn gallu aros yr un fath, ac yn parhau heb ei newid fel arfer, bydd y strategaeth a'r cynllun gweithredu i wireddu'r weledigaeth yn gorfod newid. Bydd amcanion yn cael eu cyflawni felly bydd angen penderfynu ar amcanion newydd. Efallai y bydd yr angen am weithgareddau'n dod i ben neu gallent ddod yn aneffeithiol fel bod angen cyflwyno gweithgareddau newydd. Bydd yr amgylchedd diwylliannol a gwleidyddol lleol yn newid hefyd dros amser ac mae'n bwysig bod y strategaeth bwyd yn ymateb i hyn ac yn cadw'n wastad ag agendâu a blaenoriaethau sy'n newid.

Lansiwyd y Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bwyd 'Spade to Spoon' gan Bartneriaeth Fwyd Brighton a Hove yn 2006. Cafodd y strategaeth a'r cynllun gweithredu eu hadolygu a'u diweddarau a chyhoeddwyd 'Spade to Spoon – Digging deeper' yn 2012, yn cynnwys gweledigaeth hirdymor 20 mlynedd. Nawr mae'r Bartneriaeth yn cyflawni trydedd fersiwn y strategaeth a'r cynllun gweithredu ar gyfer y cyfnod 2018 a 2023, ar sail ymgynghoriad dros flwyddyn gyfan a gwaith i gasglu ffeithiau ledled y ddinas. Fel y mae'r cyflwyniad yn nodi:

Er bod gweledigaeth 20 mlynedd y strategaeth bwyd yn aros yr un fath, mae'r cynllun gweithredu hollbwysig ar ei chyfer wedi dod i ddiwedd ei oes.

Nid yw pob un o'r strategaethau SFP wedi rhedeg am gyfnod mor hir ag un Partneriaeth Fwyd Brighton a Hove. Fodd bynnag, mae'r angen i aros yn berthnasol a chyfoes, gan ymateb i newidiadau yn y cyd-destun lleol a chenedlaethol, yn bwysig dros ben. Mae'r broses adolygu a diweddarau yn agwedd bwysig iawn hefyd ar ymdrechion i ennill gwobrau SFP ac yn aml bydd y broses adolygu a diweddarau yn cael ei threfnu i gyd-fynd â chynigion am wobrau.

Cyflwyniad

Bydd y canllaw hwn yn edrych ar ddulliau gweithredu (yn cynnwys arolygon, mapio, ac ymgynghori cyfranogol) a ddefnyddir gan bartneriaethau SFP i adolygu a diweddarau eu strategaethau a chynlluniau gweithredu a bydd yn cynnig awgrymiadau ynghylch sut i gynllunio a threfnu'r broses.

Diweddarau Themâu'r Cynllun Gweithredu

Un ffordd i strwythuro'r broses diweddarau yw cymryd pob un o'r themâu neu weithgorau e.e. tlodi bwyd, yr economi fwyd neu fwyd a'r hinsawdd, a dod â'r rhanddeiliaid perthnasol ynghyd i adolygu'r cynnydd a gafwyd ers cyflwyno'r cynllun gweithredu blaenorol. Mae'n debygol y bydd nifer o ffactorau wedi newid ers trafod y camau gweithredu gwreiddiol felly mae'n bwysig llunio'r cynllun gweithredu o fewn y cyd-destun presennol. Bydd y gweithdy i gyfranogwyr yn cymryd tua 2.5 awr, yn ôl pa mor fanwl yw'ch cynllun gweithredu.

Gweithdy Diweddarau'r Cynllun Gweithredu

Beth i'w wneud:

- Gwahodd yr holl randdeiliaid perthnasol i ddod i'r gweithdy.
- Wrth groesawu a chyflwyno'r gweithdy dylid cynnwys – pam rydyn ni yma / beth rydyn ni'n gobeithio ei gyflawni / yr amseru / y cyd-destun presennol / pwyslais ar beth rydyn ni wedi'i ddysgu a sut i adeiladu ar hynny.

Cam 1: Ymarfer Sbectrwm

- Ffordd dda i ddechrau yw defnyddio'r ymarfer Sbectrwm i werthuso effeithiolrwydd (gweler y **Canllaw ar Hwyluso Grŵp Ffocws Bwyd** am esboniad manwl).
Er enghraifft, gallech holi 'Gweithredu ar Dlodi Bwyd yn y ddinas hon – pa mor effeithiol yw hyn yn eich barn CHI?' Ar un pen i'r llinell ddychmygol mae'r ateb 'Effeithiol iawn' ac yn y pen arall 'Ddim yn effeithiol o gwbl'. Gofynnwch i'r cyfranogwyr nodi ble maen nhw'n sefyll ar y llinell er mwyn dangos eu hymateb. Trafodwch y gwahanol safbwyntiau ar y cwestiwn a'r ymatebion ac wedyn eu rhannu a'u cofnodi.

Cam 2: YN GWEITHIO'N DDA / DDIM YN GWEITHIO'N DDA

- Wedyn gall y cyfranogwyr drafod mewn parau ac fel grŵp cyfan pa gamau gweithredu a dulliau gweithredu sy'n gweithio'n dda a pham / beth nad yw'n gweithio'n dda / pam.
- Yna gofynnir i'r cyfranogwyr ysgrifennu eu sylwadau fesul un ar sticeri post-it a'u rhoi wedyn ar y siart berthnasol 'YN GWEITHIO'N DDA', 'DDIM YN GWEITHIO'N DDA'.
- Os oes pynciau penodol yn codi o dan y thema sy'n cael ei thrafod yn y gweithdy, gallwch drefnu'r ystafell fel bod gweithfannau gwahanol i drafod y pynciau penodol. Er enghraifft, wrth ganolbwyntio ar thema tlodi bwyd, gallech drefnu gweithfannau ar Ddarparu Bwyd mewn Argyfwng, Mynd i'r Afael â'r Achosion Sylfaenol neu Weithio gyda Phlant. Wedyn gallwch osod siartiau 'YN GWEITHIO'N DDA', 'DDIM YN GWEITHIO'N DDA' wrth bob gweithfan.

Cam 3: Gweithfannau PARHAU A CHRYFFHAU

- Gofynnwch i'r cyfranogwyr symud i'r weithfan maen nhw'n ei gweld yn fwyaf diddorol.
- Nawr chwiliwch am glystyrau o sylwadau ar bob un o siartiau'r gweithfannau.
- Dechreuwch drwy edrych ar y siart YN GWEITHIO'N DDA. Ar gyfer pob clwstwr o sticeri post-it, trafodwch yr ymatebion i'r cwestiynau canlynol a'u cofnodi ar y siart:
 - Beth fydd ei angen i **barhau** â'r cam neu ddull gweithredu hwn?
 - Sut gellir ei **gryfhau** a'i wneud yn fwy effeithiol wrth ddelio â thlodi bwyd?

Cam 4: Gweithfannau EI WNEUD YN WELL NEU ROI'R GORAU IDDO

- Nawr gofynnwch i'r cyfranogwyr ystyried y siart DDIM YN GWEITHIO'N DDA. Ar gyfer pob clwstwr o sticeri post-it, trafodwch yr ymatebion i'r cwestiynau canlynol a'u cofnodi ar y siart:
 - Beth fydd ei angen er mwyn i hyn **weithio'n well** a bod yn fwy effeithiol wrth ddelio â thlodi bwyd?
 - Os nad oes modd addasu'r cam neu ddull gweithredu i weithio'n well, a ddylid **rhoi'r gorau iddo**?

Cam 5: AWGRYMIADAU

- Gosodwch siart newydd – AWGRYMIADAU NEWYDD lle gallwch gofnodi camau neu ddulliau gweithredu eraill y dylid eu mabwysiadu. Ystyriwch beth fyddai hyn yn ei olygu, sut byddai'n cael ei sefydlu a phwy i'w cynnwys.
Gorffennwch y gweithdy drwy grynhoi'r prif benawdau ac amlinellu'r camau nesaf i'w cymryd a phwy sydd i'w cymryd er mwyn rhoi'r awgrymiadau ar waith.

Adolygu Cynnydd

Os ydych chi wedi mynd rhan o'r ffordd wrth gyflawni'ch strategaeth / cynllun gweithredu 5 mlynedd, efallai y byddwch am edrych ar y cynnydd rydych yn ei wneud. Ydych chi ar y llwybr iawn i sicrhau'ch canlyniadau? Oes yna rai prosiectau sydd heb gyflawni dim neu heb wneud cynnydd sylweddol? Ydych chi'n rhagori mewn meysydd eraill?

Un ffordd i adolygu cynnydd yw cynnal gweithdy cyfranogol gyda'r rhanddeiliaid allweddol.

Beth i'w wneud:

- Dechreuwch drwy ystyried beth yw'r canlyniadau allweddol a'r prosiectau sy'n gysylltiedig â phob canlyniad.
- Ar gyfer pob prosiect / canlyniad, ystyriwch y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma a rhoi sgôr:
 - Rhagorol: wedi'i gwblhau neu wedi gwneud cynnydd go iawn ar sicrhau'r canlyniadau
 - EITHAF DA: rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ond llawer i'w wneud eto i sicrhau'r canlyniad
 - ANOBEITHIOL: dim neu nemor ddim cynnydd ar sicrhau'r canlyniad.
- Canolbwyntiwch ar y rhai EITHAF DA neu ANOBEITHIOL – trafodwch y rhain ac ysgrifennu sylwadau ar y siart . Gofynnwch i chi'ch hunain:
 - Pam roedd y cynnydd yn araf neu heb ddigwydd?
 - Pa ffactorau sy'n effeithio ar hyn?
 - A yw'r ffactorau hyn y tu hwnt i'ch rheolaeth?
 - Beth sydd ei angen i ddelio â'r ffactorau hyn?
 - A yw'r CANLYNIADAU a PHROSIECTAU hyn yn berthnasol o hyd?
 - A ddylen ni barhau i geisio cyflawni'r CANLYNIADAU a PHROSIECTAU hyn?
- Ystyriwch y dyfodol a'i drafod – Edrychwch ymlaen.
 - Mae'r canlyniadau / prosiectau presennol yn adlewyrchu'r ffordd o feddwl pan gafodd y strategaeth ei hysgrifennu – beth sydd wedi newid ers hynny?
 - Oes angen newid blaenoriaethau?
 - Pa themâu allweddol / agendâu y dylen ni eu hystyried nawr?
 - Beth fydd ein ffocws strategol yn y dyfodol?

Ymgynghori â'r Cyhoedd / Arolygon

Yn ogystal â chynnal gweithdai gyda grwpiau bwyd a gweithgorau, mae'n bosibl y bydd rhai partneriaethau bwyd am gynnal ymgynghoriad cyhoeddus mwy ffurfiol wrth ddiweddarau'r strategaeth. Mae hyn yn fwy tebygol o fod yn wir os oes bwriad i'r strategaeth bwyd gael ei mabwysiadu'n ffurfiol gan awdurdod lleol. Mae'n debygol y bydd hyn yn digwydd drwy gyfrwng holiaduron neu arolygon ar-lein. Mae'r [Canllaw ar Arolygon Bwyd](#) yn dangos enghreifftiau o holiaduron sydd wedi'u cylchredeg gan aelodau SFP.

Mapio Cymunedol

Wrth ddiweddarau'r strategaeth, byddai hynny hefyd yn gallu cynnwys arfarniad cyfranogol neu ymarfer mapio cymunedol i gasglu a chofnodi barn a blaenoriaethau unigolion yn y gymuned. Mae gwybodaeth am ffyrdd i wneud hyn yn ein canllaw [Mapio Bwyd Cymunedol](#).